



## Ydych chi eisiau Dylunio Eich Dinas i'r Dyfodol? Dyma'r holl wybodaeth byddwch ei angen!

Mae'r gystadleuaeth "Dylunio Eich Dinas" yn gofyn i blant oedran ysgol am eu synaidau a'u cymorth wrth ddylunio sut gall dyfodol Caerdydd edrych, gyda ffocws ar ddiogelu a hyrwyddo ein ardaloedd gwyrdd.

Dangoswch eich brwdfrydedd i Gyngor Dinas Caerdydd a dewch a bywyd newydd i'r ddinas.

Y sialens yw defnyddio Minecraft Education i ail-ddylunio ardal o dir yng nghanol y ddinas, tu ôl i'r Amgueddfa Genedlaethol, a bydd yr enillydd yn dylanwadu ar ailwrpasu'r tir.

Byddwch yn cael eich darparu gyda portread daearyddol cywir o'r tir ble gallwch greu eich profiadau a'ch byd eich hun.

Mae eich syniadau yn bwysig iawn, felly does dim cyfyngiadau, ond eu bod yn ffitio o fewn y gofod yn y byd.

Gallwch wneud cais i'r gystadleuaeth fel rhan o dîm gyda'ch ffrindiau neu gallwch wneud cais ar eich pen eich hun. Unwaith mae'r gystadleuaeth wedi cau, bydd y cynlluniau yn cael eu beirniadu, a bydd ennillydd yn cael ei ddewis gan Gyngor Dinas Caerdydd.

Fe fydd gwobrau, a cyfle i weld eich cynllun yn cael ei adeiladu yng Nghaerdydd!

## Cofiwch:

- Gwnewch gais ar ben eich hun neu gyda ffrindiau.
- Defnyddwch y gofod o fewn y byd Minecraft i adeiladu eich syniadau.
- Byddwch yn greadigol a gadwech i'ch dychymyg redeg yn wyllt – gall fod yn rollercoaster neu yn ardd natur neu yn lawr sglefrio! Mae pob syniad yn dderbynnio!
- Meddyliwch am beth hoffwch weld yn Ninas Caerydd yn y dyfodol.
- Mae'r ddinas i bawb, felly cofiwch sicrhau y bydd y gofod ar gael i unrhyw un sydd am ei ddefnyddio.
- Mwynhewch!

---

## Sut i Ymgeisio

1. Wedi darllen y wybodaeth yma, cysylltwch â [cardifftechnocamps@gmail.com](mailto:cardifftechnocamps@gmail.com) gyda unrhyw gwestiynau.
2. Lawrlwythwch y byd "[Craft my City](#)" o'r ffolder – gweler [Importing and Exporting Worlds Document](#).
3. Dyluniwch eich syniadau yn y byd Minecraft.
4. Cwblhewch unai'r ffurflen [Ymgais Unigol](#) neu'r ffurflen [Ymgais Tîm](#).

Y dyddiad cau yw [Dydd Gwener, 26<sup>ain</sup> Chwefror 2021 am 5yp](#). Gwnewch yn siwr bod eich byd yn barod ac eich bod wedi cwblhau y ffurflen ymgeisio erbyn y dyddiad yma.

Byddwn yn rhoi gwybod i bob tîm ar y rhestr fer ar 5ed o Fawrth 2021.

---